



Cadeirydd /Chair: Mrs. Rachel Samuel

Ysgrifennydd/Secretary:
Ms Alice Parry

31 Ionawr 2022

Annwyl Glerc CYSAG,

Gan ddilyn ein proses flynyddol arferol, rwyf yn ysgrifennu i wahodd CYSAGau i gynnig enwebiadau am aelodau newydd i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'ch CYSAG yn trafod unrhyw enwebiadau y dymunant eu cynnig. Sylwer, os yw'ch CYSAG yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith yn barod, ac eithrio'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd, yn ôl Cyfansoddiad CCYSAGauC, ni fyddwch yn gallu enwebu rhywun o'ch CYSAG chi y tro hwn.

Fe sylwch yn y rhestr aelodau sydd ynghlwm mae 4 lle ar gael, gan gynnwys rôl is-gadeirydd. Mae'n hanfodol fod CCYSAGauC yn cadw aelodaeth lawn ac amrywiol er mwyn parhau â'i waith da, yn cynnwys bod yn rhanddeiliaid i'r Cwricwlwm i Gymru. Gofynnwn i chi felly rhoi ystyriaeth ystyrlon cais hwn a gobeithio y derbyniwn rai enwebiadau.

Ynghlwm y mae ffurflen y dylid ei llenwi a'i dychwelyd i mi ar y cyfeiriad e-bost /post uchod erbyn dydd Gwener 8 Ebrill 2022. Byddaf yn anfon y rhestr enwebiadau i chi cyn dydd Gwener 6 Mai 2022, fel y gall eich CYSAG eu trafod yng nghyfarfod tymor yr haf mewn pryd ar gyfer y bleidlais yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym mis Mehefin.

Sylwer y bydd disgwyl i'r enwebeion fod ar gael i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor gwaith yn rheolaidd os ydynt yn llwyddiannus yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin.

Hoffem ddiolch i chi a'ch aelodau am eich cymorth yn y mater hwn.

Yn gywir,

A Parry

Alice Parry

Ysgrifennydd i Gymdeithas CYSAGau Cymru